# Allgáu Cymdeithasol a Defnyddio Gwasanaethau Gofal yng Nghymru: Profiadau Pobl ag Amhariad Gwybyddol a Dementia.


**Prif Ymchwilydd: Dr Catherine A. MacLeod**
c.a.macleod@bangor.ac.uk

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Mae'r rhagolygon cyfredol yn awgrymu bod nifer y bobl â dementia yng Nghymru yn cynyddu, gan arwain at fwy o angen am gefnogaeth iechyd a gofal cymdeithasol i bobl â dementia a'u gofalwyr. Her allweddol i ddarparwyr gwasanaeth a chynllunwyr yw sut i reoli'r galw cynyddol hwn ar wasanaethau wrth barhau i ddarparu'r gefnogaeth a'r cymorth sydd eu hangen ar bobl â dementia a'u gofalwyr i sicrhau ansawdd bywyd da. Er mwyn cynllunio darpariaeth gwasanaeth yn effeithiol, mae'n bwysig deall yr angen a'r defnydd cyfredol o wasanaethau.

## *Nodau'r Ymchwil:*

Nod yr ymchwil hon yw sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cyfredol pobl ag amhariad gwybyddol a'u gofalwyr yng Nghymru, a sut y maent yn defnyddio gwasanaethau ar hyn o bryd, ac yn cael mynediad atynt.





Rydym yn defnyddio data o'r Astudiaeth ar Weithrediad Gwybyddol a Heneiddio - Cymru (CFAS Cymru), arolwg mawr sy'n seiliedig ar bobl 65 oed a hŷn yng ngogledd a de Cymru. Rydym yn archwilio pa mor hygyrch y mae pobl yn canfod gwasanaethau, p'un a yw anghenion beunyddiol pobl yn cael eu diwallu ai peidio, a ffactorau posibl sy'n cyfryngu'r berthynas rhwng gwybyddiaeth a defnydd gwasanaeth, gan gynnwys ffactorau amgylchedd, cefnogaeth gymdeithasol a phersonoliaeth.

Mae cyfweliadau ansoddol yn archwilio sut mae pobl â dementia, eu gofalwyr, a phobl â nam gwybyddol ysgafn yn diffinio ac yn gweithredu ar eu hanghenion, pa mor gefnogol y maent yn teimlo gan rwydweithiau sy'n bodoli eisoes (proffesiynol, cymunedol a chymdeithasol), ac yn canfod manylion pam mae pobl yn defnyddio neu'n cyrchu gwasanaethau, a pham nad ydynt, a pha gefnogaeth neu wybodaeth y gallent fod yn eu colli.

Rydym hefyd yn archwilio i ba raddau y mae mesurau hunan-adrodd o ddefnydd gwasanaeth yn adlewyrchu adroddiadau ar ddefnydd gwasanaeth mewn cofnodion iechyd gweinyddol, gan gysylltu data o astudiaeth CFAS Cymru â'r banc data Secure Anonymised Information Linkage (SAIL).

## *Cyfranogiad y Cyhoedd:*

Mae grŵp rhanddeiliaid cyhoeddus y project yn cynnwys pobl â dementia a gofalwyr. Mae'r grŵp yn cwrdd ar gamau allweddol trwy gydol y project, gan gynghori'r tîm ar wahanol agweddau ar y project, gan gynnwys helpu i lunio ffocws y gwaith, pa mor ddarllenadwy yw dogfennau cyfranogwyr, ein dehongliad o ddata, a'r argymhellion sy'n deillio o hynny. Mae gan y project hyrwyddwr cyfranogiad cyhoeddus hefyd, sy'n cwrdd â'r prif ymchwilydd yn amlach i gyfrannu'n barhaus i'r project i sicrhau bod blaenoriaethau pobl â dementia wedi'u cynnwys yn y project, a bod y gwaith a gynhyrchir yn adlewyrchu profiadau pobl yn gywir.



## *CANFYDDIADAU:*

Gwelsom fod pobl â nam gwybyddol yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ond yn llai tebygol o gael prawf ar eu golwg neu ymweld â deintydd na'r rhai heb nam gwybyddol.



MacLeod, C.A., Bu, F., Rutherford, A.C., Phillips, J., Woods, R. (2021). Cognitive impairment negatively impacts allied health service uptake: Investigating the association between health and service use.
SSM – Population Health, 13, 100720. https://doi.org/10.1016/j.ssmph.2020.100720

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

Cyllidir y project hwn gan Lywodraeth Cymru trwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.
Grant: SCF-16-1268

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Version 2.0_20.09.21